**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**TÎM COMISIYNU**

**Adroddiad Monitro Contractau**

| | |
|---|---|
| **Enw/Cyfeiriad y darparwr:** | **Cartrefi Cymru** |
| **Dyddiad:** | **24 Medi 2019 a 4 Hydref 2019** |
| **Swyddog(ion) Ymweld:** | **Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contractau** |
| **Yn bresennol:** | **Jeryl Thorpe, Rheolwr Gwasanaeth**<br>**Nicola Powell, Rheolwr Ardal y Gwasanaeth** |

**1 Cefndir**

1.1 Fel rhan o'r broses fonitro, ymwelodd y swyddog monitro i ddechrau â'r brif swyddfa ym Mhont-y-pŵl. Yn dilyn yr ymweliad hwn, ymwelodd y swyddog monitro â'r eiddo sydd wedi'i leoli ym Mwrdeistref Caerffili. Landlord yr eiddo yw Link Cymru.

1.2 Diben yr ymweliad â'r brif swyddfa oedd bwrw golwg dros y ddogfennaeth a'r prosesau a roddwyd ar waith yn yr eiddo.

1.3 Dilynwyd yr ymweliad â'r swyddfa gan ymweliad â'r safle byw â chymorth, eto gyda'r nod o fwrw golwg dros y ddogfennaeth, cael cip ar yr amgylchedd, siarad â'r tenant a hefyd siarad ag aelodau o'r staff.

1.4 Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, rhoddir camau unioni a datblygiadol i Cartrefi Cymru i'w cymryd. Camau unioni yw rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (yn ddeddfwriaethol ac ati) a chamau datblygiadol yw rhai sy'n cael eu hystyried yn arfer da.

**2 <u>Canfyddiadau</u>**

2.1 <u>Dewis Tenantiaeth</u>

2.1.1 Mae'r broses ar gyfer tenantiaid posibl yn dechrau gydag atgyfeiriad at y darparwr. Fodd bynnag, daw'r mwyafrif o atgyfeiriadau gan Weithwyr Cymdeithasol. Bydd Cartrefi Cymru yn ystyried anghenion unigolyn a'i
2 gydnawsedd ac yna dilynir proses drosiannol er mwyn sicrhau ei fod yn addas.

2.2.1 <u>Dogfennaeth</u>

Wrth fonitro'r brif swyddfa, nodwyd bod yr holl ddogfennaeth yn cael ei storio'n
2.2.2 electronig gyda chopïau caled priodol yn cael eu cadw yn y tŷ.

2.2.3 Gan mai dim ond un tenant sydd yn yr eiddo ym Mwrdeistref Caerffili, sy'n un o leoliadau Caerffili, dim ond un ffeil y cafwyd cip arni yn ystod yr ymweliad â'r tŷ.

2.2.4 Wrth fwrw golwg dros y cofnodion electronig gyda Rheolwr y Gwasanaeth, gwelwyd Cynllun Gofal a Chymorth, ynghyd â Chynllun Personol ac Asesiadau Risg priodol.

2.2.5 Ni welwyd unrhyw drefniadau cyn derbyn gan fod yr unigolyn wedi preswylio yn yr eiddo ers 1993.

2.2.6 Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth wrth y Swyddog Monitro fod angen i'r Cynllun Gofal a Chymorth gan yr Awdurdod Lleol gael ei adolygu. Os nad oes Gweithiwr Cymdeithasol penodol yn ymwneud â'r sefyllfa ar hyn o bryd, caiff swyddog ei neilltuo i ymweld â'r tenant/teulu/staff a chynnal adolygiad er mwyn penderfynu a yw anghenion yr unigolyn wedi newid.

2.2.7 Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y tenant nac aelodau o'r teulu/cynrychiolydd wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Personol. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth nad yw cynrychiolydd y tenant yn byw'n lleol, felly gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y Cynllun Personol yn cael ei rannu â'r cynrychiolydd er mwyn iddo gymryd rhan.

2.2.8 Ar 4 Hydref 2019, ymwelodd y Swyddog Monitro â'r eiddo er mwyn gweld y cofnodion papur.

2.2.9 Gwelwyd Cynllun Gofal a Chymorth gan yr Awdurdod Lleol ynghyd â'r Cynllun Personol a'r Asesiadau Risg priodol. Roedd Asesiadau Risg ar gael ar gyfer Symudedd, Ymddygiad, Trafnidiaeth a diodydd poeth.

2.2.10 Yr unigolyn yw'r unig denant sy'n byw yn yr eiddo ac esboniodd Rheolwr y Gwasanaeth fod yr unigolyn wedi "gwella'n sylweddol" ers iddo ddod yn unig denant yr eiddo. Aeth Rheolwr y Gwasanaeth ymlaen i ddweud mai'r unigolyn oedd y rheswm pam y mae yn y swydd hon a bod yr unigolyn yn "byw bywyd".

2.2.11 Gwelwyd nad oedd Cynllun Gofal a Chymorth yr Awdurdod Lleol yn gyfredol ond, fel y nodwyd eisoes, mae Rheolwr y Gwasanaeth yn ymwybodol y byddai angen i'r Awdurdod Lleol gynnal adolygiad.

2.2.12 Amlinellodd y Cynllun Personol amcanion ar gyfer yr unigolyn megis mynediad parhaus at y gymuned, gwaith tŷ, trefn ddyddiol/strwythurau. Mae'r staff sy'n cefnogi'r unigolyn wrthi'n helpu'r tenant i baratoi ar gyfer cael arhosiad byr oddi cartref; fodd bynnag, mae'n rhaid cynllunio a chael cymorth er mwyn gwneud hyn.

2.2.13 Cafodd y wybodaeth a nodwyd yng Nghynllun Gofal yr Awdurdod Lleol ei hadlewyrchu yn y Cynllun Personol.

2.2.14 Gwelwyd bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud i weithwyr proffesiynol allanol, h.y. Deintydd, Meddyg, Seiciatrydd.

Gwelwyd bod y cynlluniau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn a thrafodwyd hyn â
2.2.15 Rheolwr y Gwasanaeth. O dan y ddeddfwriaeth newydd (Deddf Rheoleiddio ac
Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) [RISCA]), y disgwyl yw y bydd cynlluniau'n
cael eu hadolygu o leiaf bob tri mis.

2.2.16

Gwelwyd bod y ffeil yn cynnwys proffil unigolyn coll, ynghyd â Chynllun Personol
ar gyfer Gadael mewn Argyfwng.

2.2.17 Mae'r darparwr hefyd yn defnyddio system goleuadau traffig pan fydd yr
unigolyn yn mynd i'r ysbyty. Drwy ddefnyddio'r system, mae'n amlygu, mewn
trefn, y wybodaeth bwysig sy'n ymwneud â'r unigolyn.

Gwelwyd y cofnodion dyddiol ac roeddent yn amlinellu pa gymorth a ddarperir
2.2.18 yn ystod y dydd, pan nad yw'r unigolyn yn mynd i'r Ganolfan Ddydd. Roedd y
cofnodion yn nodi hwyliau'r unigolyn, y bwyd y mae'n ei fwyta, gweithgareddau
megis teithiau cerdded, bwydo'r hwyaid, gwirio'r car, ac ati.

2.2.19

Cafodd y Swyddog Monitro, pan oedd yn yr eiddo, gip ar y Cofnod Rhoi
Meddyginiaeth a gwelodd nad oedd unrhyw fylchau a bod y llofnodion priodol ar
2.2.20 gael.

Hefyd yn bresennol oedd "taflen wybodaeth" ysbyty, a oedd yn cynnwys
2.3 gwybodaeth briodol am yr unigolyn pe bai angen iddo gael ei dderbyn i ysbyty.

Roedd yn hawdd dod o hyd i'r holl wybodaeth, a oedd wedi'i dogfennu a'i
2.3.1 chynnal yn dda.

<u>Maeth</u>

2.3.2

Bydd y tenant yn cyfleu i'r staff pa fwyd y mae am ei gael. O ganlyniad i
anawsterau cyfathrebu, mae'r staff hefyd yn defnyddio rhestr o fwydydd a bydd
2.3.3 y tenant yn dweud wrth y staff cymorth beth sydd ei angen.

Mae'r staff yn annog y tenant i fwyta deiet iach a chytbwys ac mae'r tenant yn
2.3.4 mwynhau bwyta digon o ffrwythau a llysiau.

Weithiau, bydd yr unigolyn yn helpu i baratoi'r bwyd,  ond gall hyn ddibynnu ar ei
hwyliau. Fodd bynnag, bydd y tenant yn helpu gyda'r siopa.

Yn ystod yr ymweliad â'r eiddo, nid oedd y Swyddog Monitro yn gallu cyfathrebu
â'r tenant gan fod yr unigolyn wedi cynhyrfu o ganlyniad i bresenoldeb dieithryn
yn ei gartref. Fodd bynnag, wrth gyrraedd, cafodd y Swyddog Monitro ei
2.4 groesawu gyda gwên pan oedd y tenant yn gwrando ar gerddoriaeth. Roedd y
tenant wedi'i wisgo'n briodol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn. Dywedodd y
2.4.1 gweithiwr cymorth, oherwydd y tywydd gwael, y byddent yn mynd allan yn y car
ac ymweld â'r archfarchnad leol cyn cael cinio.

2.4.2 <u>Cwestiynau i Reolwr y Gwasanaeth</u>

Yn ystod yr ymweliad monitro, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i Reolwr y

Gwasanaeth.

2.4.3

Roedd archwiliadau meddygol yn cael eu cynnal bob wythnos, ac roedd y feddyginiaeth yn cael ei chyfrif yn ystod y rhain. Dywedodd Rheolwr y
2.4.4 Gwasanaeth nad yw'n llofnodi'r cofnod rhoi meddyginiaeth ddwywaith gan fod yr unigolyn yn cael cymorth 1:1.

Roedd Rheolwr y Gwasanaeth yn gallu disgrifio pa wasanaethau eirioli sy'n cael
2.4.5 eu defnyddio a phryd pe bai eu hangen ar yr unigolyn.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth fod cydberthynas waith dda rhwng Cartrefi
2.4.6 Cymru a'r landlord ac os oes angen unrhyw waith atgyweirio, gwneir galwad ffôn ac mae'r ymateb yn "dda iawn".

2.5

Roedd Rheolwr y Gwasanaeth yn gallu dangos ei gwybodaeth am ddiogelu
2.5.1 unigolion a pha gamau gweithredu y dylid eu cymryd pe bai'n cael ei ystyried bod math o gam-drin yn digwydd.

Mae un aelod o'r staff yn rhugl yn y Gymraeg, ond nid yw'r tenant yn siarad yr
2.5.2 iaith.

<u>Hyfforddiant</u>

Gall y staff ddefnyddio dulliau e-ddysgu a hefyd fynd i sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cynnal gan Dîm Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Blaenau Gwent a Chaerffili.

Mae'n ofynnol i'r staff ddilyn cyrsiau hyfforddi gorfodol, h.y.  Pasbort Codi a
2.5.3 Chario, Diogelu, Ymwybyddiaeth o Feddyginiaeth, Rheoli Heintiau. Gwelodd y swyddog ymweld fod y staff hefyd yn dilyn hyfforddiant sy'n cyd-fynd â'u rôl a'r cymorth y maent yn ei gynnig. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaeth fod y tîm
2.5.4 hyfforddi canolog yn anfon hysbysiadau ynghylch pryd y bydd hyfforddiant yn dod i ben / bydd angen iddo gael ei loywi. Mewn rhai achosion, nodwyd nad oedd hyn wedi digwydd a gwelwyd bod angen i rai o'r staff gwblhau cyrsiau
2.5.5 gloywi; trafodwyd hyn â Rheolwr y Gwasanaeth er mwyn cymryd camau priodol.

Caiff unigolion eu goruchwylio bob tri mis fel arfer; fodd bynnag, dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth fod y gwaith goruchwylio ar ei hôl hi.

2.6

Gwneir gwaith goruchwylio ar sail 1:1 a gwelwyd ei fod yn eithaf manwl gyda
2.6.1 lles, gweithdrefnau, y tenant, hyfforddiant ac ati yn cael eu trafod.

Roedd Rheolwr y Gwasanaeth yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi gan Reolwr Ardal y Gwasanaeth a dywedodd fod uwch-aelod o'r staff bob amser ar gael i
2.6.2 ymateb i unrhyw gwestiynau/ymholiadau.

<u>Staffio</u>

2.6.3

Yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd un aelod o'r staff wedi gadael cyn dychwelyd yn ddiweddarach, ac roedd un aelod arall o'r staff wedi symud i un o

wasanaethau eraill Cartrefi Cymru. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd un aelod o staff wedi cael ei recriwtio.

2.6.4

Gan fod y tenant yn yr eiddo yng Nghaerffili yn hoffi cysondeb, nid yw gweithwyr asiantaeth yn cael eu defnyddio.

2.6.5 Mae system ar alw'n cael ei defnyddio ac mae'n gweithredu rhwng Rheolwyr Gwasanaethau a Rheolwyr Ardal Gwasanaethau. Mae galwyr yn cael eu defnyddio a dylid ymateb i alwadau o fewn 20 munud. Os na fydd hyn yn digwydd, mae'r staff yn cael cysylltu â ffôn symudol y Rheolwr Gwasanaeth ar Ddyletswydd.

2.7

Wrth fwrw golwg dros ffeiliau dau aelod o'r staff, gwelwyd nad oedd llawer o
wybodaeth yn un ohonynt. Wrth drafod hyn â Rheolwr y Gwasanaeth,
2.7.1 dywedwyd wrth y Swyddog Monitro fod y Tîm Adnoddau Dynol canolog yn
cadw'r gwaith papur.

2.7.2 Roedd yr ail ffeil yn cynnwys tri geirda, disgrifiad swydd, cofnod o'r cyfweliad,
contract cyflogaeth wedi'i lofnodi, llun o'r aelod o staff a thystysgrif gyfredol y
Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth fod
2.8 tystysgrifau hyfforddiant yn aros i gael eu sganio ac yna byddent yn cael eu
gosod ar ffeil.

2.8.1

<u>Cwynion a Chanmoliaeth</u>

Darperir canllaw ar gwynion i bob tenant a phe bai tenant am gwyno, byddai
cymorth priodol yn cael ei gynnig. Ar adeg yr ymweliad, ni chafwyd unrhyw
2.8.2 gwynion gan y tenant presennol a/neu ei gynrychiolydd.

Pe bai cwyn yn dod i law, byddai Rheolwr y Gwasanaeth yn ei thrafod â'r tîm neu ar sail 1:1 pe bai'n fwy priodol, yn dibynnu ar fanylion a sensitifrwydd y mater sy'n cael ei godi.

<u>Sicrhau Ansawdd</u>

2.9

Mae'r Rheolwr Ardal a Rheolwr y Gwasanaeth yn cynnal adroddiad misol, sy'n
2.9.1 cwmpasu Amcanion Personol, Oriau â Chymorth, Recriwtio, Diogelu, Iechyd a
Diogelwch (Damweiniau a Digwyddiadau), Gofal Iechyd, Cyllid, Cwynion a
Phryderon. Defnyddir system sgorio i nodi'r meysydd sy'n rhagori a'r rhai sydd
2.9.2 angen sylw.

Caiff adroddiad chwarterol ei lunio hefyd gan y Rheolwr Ardal a Rheolwr y
Gwasanaeth. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ffeil(iau) personol y tenant,
3 goruchwyliaeth, hyfforddiant, cymwysterau (yn unol â chofrestriad Gofal
Cymdeithasol Cymru), cyfarfodydd tŷ (gan gynnwys cyfarfodydd tîm), cerbydau.
3.1 Eto, defnyddir system sgorio a chaiff sylwadau eu cynnwys o ran y canfyddiadau
a pha gamau gweithredu sydd eu hangen.

3.1.2

<u>Arsylwadau cyffredinol</u>

3.1.3 Mae'r swyddfa yn gweithredu system ddi-bapur, gyda dogfennaeth bapur yn cael ei chadw'n ddiogel yn y cartref.

3.1.4 Yn ystod yr ymweliad â'r cartref, gwelodd y swyddog ymweld fod yr eiddo'n daclus ac yn gwbl lân. Roedd golwg dda ar y tenant ac roedd wedi'i wisgo'n briodol ar gyfer y tywydd.

3.1.5 **Camau Unioni a Datblygiadol**

<u>Unioni</u>

3.2

3.2.1 Wrth ddatblygu Cynllun Personol, mae'n rhaid i'r darparwr sicrhau yr ymgynghorir â'r unigolyn a/neu'r cynrychiolydd a bod y Cynllun yn cael ei lofnodi gan y partïon priodol dan sylw, Rheoliad (RISCA) 15.

**4** Mae'n rhaid i'r cynllun personol gael ei adolygu yn ôl yr angen, ond o leiaf bob tri mis, Rheoliad (RISCA) 16

4.1

Er mwyn goruchwylio'r staff mewn modd amserol, dylid ei wneud o leiaf bob chwarter, Rheoliad (RISCA) 36

4.2 Dylid sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant sy'n briodol i'r gwaith y maent yn ei wneud,
Rheoliad (RISCA) 36

4.3 <u>Datblygiadol</u>

Ni nodwyd unrhyw gamau datblygiadol yn ystod yr ymweliad monitro hwn.

**<u>Casgliad</u>**

Roedd y swyddog monitro o'r farn bod yr ymweliadau â'r swyddfa a'r eiddo yn gadarnhaol. Gwelwyd bod yr unigolyn sy’n byw yn yr eiddo yn ymateb yn dda i’r gweithiwr cymorth ac yn rhyngweithio’n dda ag ef. Roedd y cartref wedi’i addurno i safon uchel ac roedd yn gynnes ac yn groesawgar.

Mae pobl yn elwa ar gael rheolwyr a thîm o staff sefydlog sy'n rhoi cysondeb a chymorth da.

Bydd y drefn fonitro arferol yn parhau a hoffai'r swyddog monitro ddiolch i staff Cartrefi Cymru am eu hamser, y wybodaeth a rannwyd a'r croeso yn ystod yr ymweliad.

Awdur: Caroline Roberts
Teitl: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: 25 Medi 2019

D.S.  Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.  Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd ar gais.